OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 206 (Cy. 48)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *27 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**2**) a mesurau sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffiniau(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf i weithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cygor, o ran mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion(**4**), ac at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a grybwyllir yn rheoliad 3(1), gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac mae hynny'n cael effaith o'r diwrnod ymadael, ond wedi ei arbed gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan adran 1A o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1)). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2010/2690.

(**3**) O.S. 2003/2901, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd paragraff 28(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r dynodiad yn effeithiol fe pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.

(**4**) OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/04/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.